Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Mae Llywodraeth Cymru yn annog system newydd, syml a mwy atebol i fodloni Anghenion Ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn ganolog i'r cynigion ar gyfer newid y ffordd yr ydym yn asesu ac yn bodloni Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru.

Os oes gan plentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol bydd angen i'r Ysgol, Sefydliad Addysg Bellach neu Awdurdod Lleol baratoi a chynnal CDU ar gyfer yr unigolyn.

Rhagwelir y bydd y CDU yn disodli'r Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig presennol dros gyfnod o ddwy flynedd o 2020 ymlaen ac y bydd yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr o **0** i **25** oed.

Bydd y **CDU** efo fformat safonol, meysydd gorfodol gyda cynnwys penodol i'r plentyn neu berson Ifanc. Bydd pob CDU yn cynnwys **Cynllun Gweithredu** a'r dystiolaeth ar gyfer y gweithredoedd a gaiff ei ddatblygu gan ddefnyddio dull cynllunio person-ganolog. Bydd CDU yn fwy hygyrch ac yn haws i'w ddiweddaru er mwyn bodloni anghenion newidiol y plant a'r bobl ifanc.

Pwy fydd yn derbyn CDU?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod unrhyw blentyn neu berson ifanc (0-25) a chanddo anghenion ychwanegol a bod angen cefnogaeth arno sy'n 'wahanol neu'n ychwanegol i'r hyn a ddarperir fel rhan o'r cwricwlwm arferol neu wahaniaethol' yn derbyn CDU.

- Bydd holl blant a phobl ifanc a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol a datganiad cyfredol yn parhau i gael yr hawl i gael CDU.
- Bydd y fwyafrif o CDU's yn cael eu datblygu gan yr ysgol neu'r Coleg ar y cyd â gweithwyr proffesiynol a'r teulu.
- Mae awdurdodau lleol yn debygol o fod yn gyfrifol am baratoi CDU's ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion mwy dwys neu gymhleth a'r rhai sy'n 'Derbyn Gofal''.
- Gall plant o dan oedran ysgol sydd ddim yn mynychu ysgol a gynhelir cael eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol gan rieni neu weithiwr iechyd proffesiynol.

Sut caiff y CDU ei ddatblygu?

Unwaith caiff angen plentyn neu berson ifanc i gael CDU ei nodi, dechreuir y broses gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYCo). Gallai hefyd fod yn Ymwelydd Iechyd/Person proffesiynol sy'n arwain mewn canolfannau Blynyddoedd Cynnar.

Bydd plant a phobl ifanc, rhieni a'r holl bobl broffesiynol briodol i gyd yn cyfrannu gwybodaeth berthnasol. Trefnir cyfarfod gan y Cydlynydd ADY, a bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys y plentyn neu'r person ifanc, rhieni a'r holl bobl broffesiynol briodol i gyfrannu at y CDU.

Bydd y cyfarfod yn dilyn dull person-ganolog ac yn llunio **cynllun gweithredu a gytunir** a gaiff ei **adolygu unwaith y flwyddyn, o lleiaf** neu yn gynt os fydd angen.

Sut olwg fydd ar CDU?

Bydd y CDU yn cynnwys:

- Gwybodaeth fywgraffyddol am y plenty a manylion cyswllt
- Cyfrifoldeb am y IDP- sefydliad a pherson dynodedig
- Safbwyntiau'r rhieni a'r plentyn ac 'yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person Ifanc.
- Disgrifiad clir a chynhwysfawr o anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc
- Disgrifiad o'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol - wedi'i benodi a'i fesur, e.e. faint a pha mor aml a phwy sy'n gyfrifol am ei ddarparu. Amlinellu unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc i gyflawni ei nodau. Pwy fydd yn gyfrifol am gael mynediad i'r gefnogaeth a'r dyddiad y caiff y cynllun ei adolygu.
- Darpariaeth ADY i'w sicrhau gan gorff GIG
- Manylion Pontio
- Manylion am ddatgymhwyso o rannau o'r cwricwlwm, ddarpariaeth arholiadau sy'n ofynnol neu chludiant
- Cofnod o drafodaethau, cyngor a thystiolaeth a llinell amser
- Enw lleoliad



Mesur llwyddiant y CDU

Rhagwelir y bydd pob CDU yn cynnwys cynllun gweithredu clir, a fydd yn cael ei adolygu o leiaf bob 12 mis neu ar gais gan riant i ystyried a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cynnydd tuag at eu targedau.

Gallai'r ysgol / coleg neu awdurdod lleol ystyried cais rhiant am adolygiad o'r CDU yn ddiangen. Os felly, rhaid iddynt hysbysu'r rhiant neu'r person Ifanc i esbonio eu penderfyniad a darparu manylion am wasanaeth gwybodaeth a chyngor yr ALl a threfniadau ar gyfer datrys anghytundeb o ffynhonnell annibynnol.

Bydd adolygiad CDU yn casglu ac yn dadansoddi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd. Bydd yn ystyried a yw'r disgrifiad o ADY yn yr CDU yn dal yn gywir, yng ngoleuni unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd, ac os dylid gosod targedau newydd ac a yw'r ddarpariaeth yn dal i fod yn briodol.

Anhapus gyda'r cynllun a'r broses?

Bydd y CDU yn dasg gydweithredol rhwng y bobl sy'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc orau, gan gynnwys pobl broffesiynol briodol; dylai hyn arwain at gonsensws barn a chynllun gweithredu priodol gyda meini prawf clir am lwyddiant.

Pan na cheir cytundeb, bydd y plentyn neu'r person ifanc neu ei deulu yn medru cofrestru'r anghytundeb hwn yn ffurfiol gyda'r Awdurdod Lleol. Os bydd person Ifanc neu rieni yn anhapus ynglŷn â phenderfyniadau'r ysgol neu'r coleg gallant ofyn i'r awdurdod lleol i ail ystyried y penderfyniad a wnaed, gan gynnwys y canlynol:

- A oes ganddo / ganddi anghenion dysgu ychwanegol;
- Gofyn i'r ALl adolygu'r CDU;
- Bod yr awdurdod lleol yn ystyried cymryd drosodd cyfrifoldeb am gynnal y cynllun
- Ailystyried penderfyniad ysgol i roi'r gorau i gynnal CDU.

Os yw hyn yn digwydd, bydd unrhyw sefydliadau, ysgolion, sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a.y.b. yn rhannu'r cyfrifoldeb o ddatrys yr anghytundeb gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu.

Bydd **SNAP Cymru**, prif Wasanaeth Partneriaeth Rhieni Cymru, ar gael i gefnogi teuluoedd drwy gydol y broses, gan roi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth a lle bo gofyn, bydd cyfryngwyr sydd wedi' hyfforddi yn hwyluso prosesau datrys anghytundebau ffurfiol ac annibynnol.

Ynghylch SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn cyflwyno'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni yng Nghymru ac mae'n cynnig gwybodaeth gywir a chyngor a chefnogaeth sy'n ddi-duedd, ar gyfer teuluoedd plant a phobl ifanc a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Anabledd. Mae gwasanaeth SNAP Cymru yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddi-duedd. Mae SNAP hefyd yn cynnig gwasanaeth datrys anghytundebau ffurfiol ac eiriolaeth annibynnol yn seiliedig ar faterion i blant a phobl ifanc. Am gefnogaeth neu wybodaeth bellach, cysylltwch â'n:

Llinell gymorth: **0808801608**

Gwefan: **www.snapcymru.org**